

ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG LLYWODRAETH CYMRU

Teitl y cynnig:	Rhestr o Sefydliadau Ôl-16 Arbennig Annibynnol
Swyddog(ion) sy'n cyflawni'r Aseiad Effaith Integredig (enw(au) ac enw'r tîm):	Tîm Trawsnewid y System Anghenion Dysgu Ychwanegol
Adran:	Gwasanaethau Addysg a Chyhoeddus
Pennaeth Is-adran /Uwch Swyddog Cyfrifol (enw):	Chris Jones
Gweinidog / Ysgrifennydd y Cabinet sy'n gyfrifol:	Kirsty Williams
Dyddiad Dechrau:	10 Ebrill 2020

ADRAN 1. PA GAMAU MAE LLYWODRAETH CYMRU’N EU HYSTYRIED A PHAM?

Cefndir

Mae'r asesiad effaith hwn yn ymwneud â'r Rhestr o Sefydliadau Ôl-16 Arbennig Annibynnol drafft ('y rheoliadau ISPI drafft') a gyhoeddwyd ar gyfer ymgynghori yn eu cylch ar 10 Ebrill 2020; bydd yr ymgynghoriad yn cau ar 5 Mai 2020.

Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ('Deddf 2018') yn gwneud darpariaethau ar gyfer fframwaith statudol newydd i gefnogi plant a phobl ifanc gydag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Bydd yn disodli deddfwriaeth gyfredol sy'n ymwneud ag anghenion addysg arbennig (AAA) ac asesiadau plant a phobl ifanc gydag anghenion a/neu anabledau dysgu (AAD) ym maes addysg a hyfforddiant ôl-16.

Ymhlith pethau eraill, mae Deddf 2018 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru sefydlu, cynnal a chyhoeddi rhestr o sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol yng Nghymru a Lloegr ('y rhestr').

Ystyr ISPI yw sefydliad sy'n darparu addysg a hyfforddiant i bobl dros oedran ysgol gorfodol ac sy'n cael ei drefnu yn arbennig i ddarparu addysg neu hyfforddiant o'r fath i bobl ag anghenion dysgu ychwanegol ac nad yw'n -

- (a) sefydliad o fewn y sector addysg bellach,
- (b) ysgol annibynnol wedi'i chynnwys yng nghofrestr ysgolion annibynnol Cymru (a gedwir o dan adran 158 o Ddeddf Addysg 2002 (p. 32)),
- (c) sefydliad addysg annibynnol (o fewn ystyr Pennod 1 o Ran 4 Deddf Addysg a Sgiliau 2008 (p. 25)), sydd wedi'i gynnwys yng nghofrestr sefydliadau addysg annibynnol Lloegr (a gedwir o dan adran 95 o'r Ddeddf),
- (d) Academi 16 - 19

Mae Deddf 2018 yn rhoi i Weinidogion Cymru y pwerau i wneud rheoliadau ar gyfer cynnwys y rhestr a gyhoeddir; y gofynion sy'n rhaid eu dilyn fel amod o gael eu cynnwys ar y rhestr; a gofynion i'w dilyn tra bo'r sefydliad wedi'i restru (yn cynnwys gofynion i Weinidogion Cymru gymeradwyo trefniadau yn y sefydliad ac unrhyw newid i'r cyfryw drefniadau). Mae hefyd yn rhoi i Weinidogion Cymru y pwerau i dynnu sefydliad o'r rhestr a hawliau apêl i berchnogion sefydliadau apelio i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf yn erbyn penderfyniadau.

Y bwriad yw cyflwyno'r rheoliadau ISPI drafft gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ystod 2020, gan obeithio cychwyn prif ddarpariaethau Deddf 2018 a rheoliadau yn ystod hydref 2021. Mae hyn er mwyn caniatáu digon o amser i'r ISPIs ymgeisio am gael eu rhoi ar y rhestr a chael penderfyniad ar hynny cyn i'r Ddeddf gael ei rhoi ar waith gan ddechrau ym mis Medi 2021.

Datblygu polisi

Datblygwyd y rheoliadau ISPI drafft yng ngoleuni pum ffordd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Maent wedi'u bwriadu i ddarparu sail **hirdymor** i drefn statudol newydd ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc gydag ADY trwy sicrhau bod awdurdodau lleol yn gosod pobl ifanc mewn sefydliadau sy'n hyfyw o ran ansawdd y ddarpariaeth maen nhw'n ei darparu.

Mae gofynion y rheoliadau ISPI drafft yn canolbwyntio ar **atal** plant a phobl ifanc rhag colli cyfleoedd addysgiadol a'r cyfle i gyflawni eu potensial trwy sicrhau eu bod yn derbyn y ddarpariaeth sy'n ofynnol iddynt yn unol â'u ADY yn brydlon ac effeithlon gan eu galluogi i gymryd rhan a chael budd o'u haddysg.

Mae'r rheoliadau ISPI drafft a Deddf 2018 a ategir ganddynt yn rhan **integredig** o thema allweddol 'Uchelgeisiol ac yn Dysgu' *Ffyniant i Bawb* ac yn meddu ar amcanion llesiant y thema allweddol honno ac eraill. Fe'u datblygwyd **mewn cydweithrediad** â'n partneriaid a fydd yn ddarostyngedig i'r rheoliadau wrth gyflawni'r gofynion arfaethedig ar gyfer ISPI er mwyn ymgeisio am le ar 'y rhestr'. Datblygir hyn ymhellach mewn ymgynghoriad â sefydliadau annibynnol, arolygiaethau addysg (Estyn ac Ofsted) a'r Tribiwnlys Haen Gyntaf.

O ystyried mai nhw yw buddiolwyr arfaethedig y drefn gymorth newydd, rydym hefyd wedi mynd ati i **gynnwys** plant, pobl ifanc a'u teuluoedd wrth ddatblygu'r system ADY yn gyffredinol trwy gynnal digwyddiadau ymgysylltu sydd wedi'u targedu. Nid yw'r rheoliadau penodol hyn yn effeithio'n uniongyrchol ar blant a phobl ifanc gan mai rheoliadau technegol ydynt i bob pwrpas sy'n ymwneud â'r broses ymgeisio y bydd perchennog ISPI yn ei defnyddio i ymgeisio i fod ar restr Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, o ganlyniad i hyn, bydd ISPIs sydd wedi'u rhestru yn gymwys i dderbyn dysgwyr a ariennir gan awdurdodau lleol a all gael mynediad at ddarpariaeth addysgol arbennig sydd wedi'i theilwra i'w hanghenion dynodedig. Byddwn yn parhau i gynnwys yn y gwaith ymgynghori y partion hynny sydd â diddordeb ac a effeithir yn uniongyrchol o ganlyniad i'r rheoliadau hyn. Bydd yr ymgynghoriad yn un cyhoeddus felly byddwn yn ystyried safbwyntiau eraill yn ôl yr angen, gan gynnwys unrhyw adborth gan blant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Ategir y rheoliadau gan ganllawiau anstatudol er mwyn helpu partion â diddordeb ac eraill gyda'u cais.

Effaith

Mae darpariaethau Deddf 2018 a'r rheoliadau ISPI drafft dilynol yn ei gwneud yn ofynnol i ISPIs ymgeisio i Weinidogion Cymru er mwyn cael eu cynnwys ar y rhestr, os ydynt yn dymuno bod yn gymwys i dderbyn arian cyhoeddus ar gyfer lleoliadau arbenigol. Felly bydd y rheoliadau yn gwahardd Awdurdodau Lleol Cymru rhag gosod pobl ifanc mewn ISPIs os nad ydynt ar y rhestr. Mewn geiriau eraill, rhaid i ISPI fod ar y rhestr er mwyn cynnig lle i bobl ifanc sy'n cael eu hariannu gan ALI yng Nghymru.

Y sail resymegol ar gyfer cael rhestr a gynhelir gan Weinidogion Cymru yw er mwyn rhoi sicrwydd i awdurdodau lleol ac i bobl ifanc a'u teuluoedd ynghylch ansawdd y ddarpariaeth mae ISPIs yn cynnig. Bydd y rheoliadau ISPI drafft yn nodi'r amodau a'r gofynion y bydd

yn rhaid i ISPIs eu cynnal er mwyn cael lle a pharhau ar y rhestr hon. Fel y bydd ISPI yn bodloni'r meini prawf a bennir, caiff hyn effaith gadarnhaol ar y bobl ifanc bregus a fydd yn mynychu'r ISPI.

Gofynion ariannol

O ganlyniad i Ddeddf 2018, bydd y cyfrifoldeb cyfredol am asesu anghenion dysgu unigolyn er mwyn sicrhau darpariaeth ôl-16 arbenigol yn trosglwyddo o Weinidogion Cymru i Awdurdodau Lleol. Trosglwyddir y gyllideb gyfredol a ddefnyddir gan Weinidogion Cymru i gynllunio a sicrhau darpariaeth ôl-16 i ALLau i'w cefnogi nhw yn y gwaith o ysgwyddo'r cyfrifoldebau newydd hyn. Felly ni fydd ALLau yn ysgwyddo costau ychwanegol.

Nodwyd goblygiadau ariannol y drefn newydd a gyflwynwyd gan Ddeddf 2018 ac is-ddeddfwriaeth ddilynol yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a oedd yn cyd-fynd â Deddf 2018¹. Cynhyrchir Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y rheoliadau ISPI yr un pryd ag y cânt eu cyflwyno i'w cymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mecanweithiau ar gyfer cyflawni

Bydd y Cod ADY yn darparu'r canllawiau cynhwysfawr angenrheidiol i gyrff cyhoeddus ar eu swyddogaethau statudol mewn perthynas ag ADY, yn cynnwys y rhai a nodwyd yn Neddf 2018 a'r rheoliadau cysylltiedig a wnaed. Ategir y gwaith o ddarparu'r Rheoliadau ISPI gan ganllawiau anstatudol a fydd yn nodi'r cyngor ar sut y gall ISPIs wneud cais i gael eu cynnwys ar restr ISPI Llywodraeth Cymru a swyddogaethau eraill yn ymwneud â darpariaethau yn y rheoliadau.

ADRAN 7. CASGLIAD

7.1 Sut mae'r sawl sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan y cynnig wedi cael eu cynnwys yn y gwaith o ddatblygu'r cynnig?

Gan fod y rheoliadau hyn yn dechnegol eu natur, dim ond cyfres gyfyngedig o randdeiliaid allweddol y maen nhw'n effeithio arnynt yn uniongyrchol. Wrth ddatblygu'r cynigion hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu â sefydliadau addysg bellach arbenigol ac Estyn.

Yn fwy cyffredinol, mae'r drefn ADY newydd wedi bod yn destun ymgynghori eang gyda nifer o randdeiliaid yn cynnwys plant, pobl ifanc a'u teuluoedd, Cydlynwyr Addysg Anghenion Arbennig (SENCO) ac ymarferwyr eraill o ysgolion, Sefydliadau Addysg

¹ <https://beta.gov.wales/sites/default/files/publications/2018-04/additional-learning-needs-and-education-tribunal-wales-act-2018-explanatory-memorandum.pdf>

Bellach ac awdurdodau lleol, yn ogystal â chynrychiolwyr o Estyn, y Comisiynydd Plant, Comisiynydd y Gymraeg, y trydydd sector ac eraill. Mae iteriadau blaenorol o'r Cod ADY drafft wedi'u cyhoeddi fel rhan o ddatblygiad Deddf 2018 ac maent wedi bod yn destun sylwadau a chraffu cyhoeddus. Mae hyn wedi cynnwys digwyddiadau ymgynghori cyhoeddus ar raddfa fawr a nifer o weithdai ymgysylltu wedi'u targedu gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

7.2 Beth yw'r effeithiau cadarnhaol neu negyddol mwyaf sylweddol?

Yn sgil y drefn ADY newydd, bydd penderfyniadau yn ymwneud â darpariaeth addysg addas i bobl ifanc ag anghenion cymhleth yn cael eu gwneud yn lleol gan bobl sydd wedi bod yn rhan o drefn cymorth y person ifanc dros gyfnod cyfan ei addysg. Bydd awdurdodau lleol yn gyfarwydd ag anghenion y bobl ifanc yn y system, a bydd modd iddynt flaengynllunio ar gyfer y cyfnod pontio i addysg ôl-16. Hefyd bydd yn annog ac yn galluogi awdurdodau lleol a darparwyr ôl-16 (prif ffrwd ac annibynnol) i gydweithio er mwyn cynllunio a datblygu ar gyfer y ddarpariaeth a fydd ei hangen ar gyfer y dyfodol er mwyn diwallu anghenion lleol.

Effaith fwyaf sylweddol y rheoliadau arfaethedig fydd y sicrwydd y byddant yn ei roi i awdurdodau lleol a phobl ifanc a'u teuluoedd o ran ansawdd y ddarpariaeth y bydd IPSIs yn ei darparu. Yn sgil y gofynion a nodir yn y rheoliadau bydd yr IPSIs a restrir ac a fydd felly'n gymwys i dderbyn pobl ifanc a ariennir gan awdurdodau lleol yng Nghymru yn bodloni safon foddhaol.

Mae'r cynigion hyn a'r gwelliannau maen nhw'n eu cynnig i'r cymorth a roddir i blant a phobl ifanc ag ADY yn ymwneud yn uniongyrchol â thema allweddol 'Uchelgeisiol ac yn Dysgu' *Ffyniant i Bawb* ac ag amcanion lles o fewn y thema allweddol honno ac eraill. Maen nhw hefyd yn ymwneud â nifer o'r amcanion lles a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn enwedig yn y modd maen nhw'n cyfrannu at Gymru lewyrchus (trwy alluogi pob dysgwr gydag ADY i gyflawni ei botensial addysgol a bod mewn gwell sefyllfa i allu cyfrannu yn economaidd) a Chymru sy'n fwy cyfartal (trwy sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu elwa ar addysg ar sail fwy cyfartal).

7.3 Yn wyneb yr effeithiau a nodwyd, sut bydd y cynnig:

- yn cyfrannu i'r eithaf at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant,
- yn osgoi, lleihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Fel y nodwyd uchod, bydd y rheoliadau eu hunain yn cyfrannu at amcanion llesiant Llywodraeth Cymru a'r saith nod llesiant, yn enwedig Cymru lewyrchus a mwy cyfartal.

Bydd newid y system ADY a gweithredu'r system yn gofyn am waith paratoi sylweddol gan ysgolion a Sefydliadau Addysg Bellach yn arbennig. Er mwyn galluogi'r gwaith paratoi hwn, manteisio i'r eithaf ar effeithiau cadarnhaol y gofynion rheoleiddio arfaethedig, a

lliniaru unrhyw effeithiau niweidiol y gallen nhw fel arall fod wedi eu hachosi, mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Rhaglen Drawsnewid gynhwysfawr sy'n cynnwys pecyn buddsoddi gwerth £20 miliwn.

Mewn perthynas â'r rheoliadau hyn, byddai angen i sefydliadau AB arbenigol cyfredol ac unrhyw sefydliadau newydd sy'n dymuno cael lle ar y rhestr ISPIs baratoi yn unol â hynny ar gyfer ymgeisio i Weinidogion Cymru. Fodd bynnag, nid ystyrir bod y gofynion mor llafurus neu wahanol i'r gofynion a nodir yn y cytundebau ariannu cyfredol sydd gan Weinidogion Cymru gyda sefydliadau AB. Trwy osod ein gofynion clir mewn rheoliadau a chanllawiau ategol byddwn yn helpu ISPIs i gyflawni'r safonau angenrheidiol er mwyn cynorthwyo pobl ifanc ag ADY.

7.4 Sut bydd effaith y cynnig yn cael ei monitro a'i gwerthuso wrth fwrw ymlaen a phan ddaw i ben?

Mae Llywodraeth Cymru wedi penodi pum Arweinydd Trawsnewid ADY i fonitro ac adolygu trefniadau gweithredu yn ystod y cyfnod pontio ac ar ôl cyflwyno'r system ADY newydd.

Bydd adolygiad ôl-weithredu yn rhan o fodel gwerthuso a monitro trosfwaol Llywodraeth Cymru, a fydd yn ystyried y camau gweithredu, yn benodol:

- parodrwydd – i asesu'r graddau mae asiantau cyflawni yn barod at y newidiadau;
- cydymffurfio - monitro pa mor effeithiol mae sefydliadau yn glynu wrth y gofynion deddfwriaethol newydd ar ôl iddyn nhw ddod i rym;
- effaith – gwerthuso'r graddau y mae'r newidiadau polisi ehangach a deddfwriaethol yn cael eu sefydlu ac yn cael effaith ar ddeilliannau dysgwyr.

Ategir yr ymagwedd hon at gydymffurfio, monitro effaith a gwerthuso ymhellach trwy arolygon parhaus a threfniadau adolygu dan arweiniad Estyn. Mae hyn yn cynnwys arolygu a monitro ISPIs.

Mae'n ddyletswydd ar Lywodraeth Cymru i gynnal rhestr o ISPIs yng Nghymru a Lloegr. Felly bydd proses weinyddol fechan barhaus ar y gweill a fydd yn monitro'r rhestr o ISPIs mewn perthynas â gofynion a nodir yn y rheoliadau ISPI.

ADRAN 8. DATGANIAD

Datganiad

Rwy'n fodlon fod effaith y cam gweithredu arfaethedig wedi'i asesu a'i gofnodi'n ddigonol.

Enw'r Is Gyfarwyddwr: Chris Jones
Adran: Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
Dyddiad: 22 Ionawr 2020